EDRYCH AR HAWLIAU PLANT YNG NGHYMRU

Ydych chi o dan 18 oed?

Oes **ydych**, mae yna gyfraith yng Nghymru sy'n dweud y dylai hawliau plant fod yn bwysig iawn. Enw'r ddeddf yw

Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011

CLICIWCH Y BOTYMAU!

Yn ôl y gyfraith, pan fydd y Llywodraeth yng Nghymru yn gwneud penderfyniadau ac yn cynllunio neu'n gwario arian ar rywbeth sy'n effeithio arnoch chi, yna mae angen meddwl yn ofalus am eich hawliau a'r hyn sydd orau i chi. **Mae gennych hawl i gymryd rhan a lleisio eich barn.**

Mae eich hawliau i'w gweld mewn rhestr o'r enw

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Pam y mae hyn yn bwysig i mi?

Mae'r gyfraith yng Nghymru yn datgan y dylai hawliau plant fod yn bwysig iawn. **Ond ydyn nhw mewn gwirionedd?**

Ni yw'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. Grŵp o wleidyddion sydd wedi cael eu dewis i geisio sicrhau y gwneir pethau da dros blant yng Nghymru. Rydym yn awyddus i wybod a yw'r gyfraith yma'n gweithio'n iawn. A yw hawliau plant yn bwysicach ers i'r gyfraith yma gael ei gwneud?

I wneud hyn, gwnaethom ofyn i bobl beth oedd eu barn:

plant **pobl ifanc** **oedolion**

CLICIWCH Y BOTYMAU!

Pethau a glywsom gan blant a phobl ifanc

Yn ôl plant a phobl ifanc:

- Mae gen i hawl i leisio fy marn (Erthygl 12)
- Rwyf wedi cael llawer o help o ganlyniad i'm hawliau
- Gwella'r hawl i fod yn ddiogel, gan ei bod yn bwysig teimlo'n ddiogel
- Mae gennym hawl i amgylchedd glân
- Rwyf am gael fy hawl i ddefnyddio fy iaith fy hun a dathlu fy niwylliant a'm crefydd fy hun
- Dylem ddysgu am hawliau yn yr ysgol
- Mae trafnidiaeth yn broblem fawr
- Hoffem gael yr hawl i weld ein teulu os nad ydym yn byw gyda nhw

Pethau y dylid eu newid

Ar ôl gwrando ar yr hyn sydd gan bawb i'w ddweud, rydyn ni wedi penderfynu y gallai pethau fod yn well. **Rydym yn dweud...**

- Dylai fod swydd newydd fel pennaeth yn cael ei chreu yn Llywodraeth Cymru a dylai'r person hwnnw sicrhau bod hawliau plant bob amser yn cael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau pwysig.
- Dylai'r holl bobl sydd mewn swyddi uchel yn Llywodraeth Cymru orfod dysgu am hawliau plant.
- Dylai Llywodraeth Cymru wneud cynllun clir i ddangos ei bod yn meddwl am hawliau plant wrth ddewis sut i wario ei harian.
- Mae angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod plant yn gwybod am eu hawliau.
- Mae angen dweud wrth oedolion hefyd am yr hawliau sydd gan blant.
- Dylai fod ffordd hawdd i blant gwyno os nad ydyn nhw'n hapus bod rhywun wedi gwrando ar eu hawliau.
- Dylai plant a phobl ifanc gael llais yn y cynlluniau a'r deddfau yng Nghymru. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod ganddi gynllun clir i wneud i hyn ddigwydd.

adroddiad llawn

Dyma'r erthyglau sydd i'w gweld yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Erthygl 1 Mae gan bawb o dan 18 oed yr hawliau yma.

Erthygl 2 Mae gan bob plentyn yr hawliau yma ac ni ddylai unrhyw blentyn gael ei drin yn wahanol.

Erthygl 3 Dylai pawb sy'n gweithio â phlant bob amser wneud beth sydd orau i bob plentyn.

Erthygl 4 Dylai'r Llywodraeth wneud yn siŵr bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael yr hawliau yma.

Erthygl 5 Dylai llywodraethau helpu rhieni i'ch helpu chi i ddod yn gyfarwydd â hawliau plant wrth i chi dyfu i fyny.

Erthygl 6 Mae gennych chi'r hawl i fywyd, i dyfu i fyny, ac i fod yn iach.

Erthygl 7 Mae gennych chi'r hawl i gael enw a chenedligrwydd.

Erthygl 8 Dylai llywodraethau barchu eich hawl i gael enw, cenedligrwydd a theulu.

Erthygl 9 Mae gennych chi'r hawl i fyw gyda'ch rhieni os dyna sydd orau i chi.

Erthygl 10 Mae gennych chi'r hawl i weld eich teulu, hyd yn oed os ydyn nhw'n byw mewn gwlad wahanol.

Erthygl 11 Mae gennych chi'r hawl i beidio â chael eich cymryd allan o'r wlad yn anghyfreithlon

Erthygl 12 Mae gennych chi'r hawl i roi eich barn ar bob mater sy'n effeithio arnoch chi, ac i'r farn honno gael ei chymryd o ddifri.

Erthygl 13 Mae gennych chi'r hawl i gael hyd i wybodaeth.

Erthygl 14 Mae gennych chi'r hawl i ymarfer eich crefydd eich hun.

Erthygl 15 Mae gennych chi'r hawl i gwrdd â ffrindiau ac ymuno â grwpiau a chlybiau.

Erthygl 16 Mae gennych chi'r hawl i breifatrwydd.

Erthygl 17 Mae gennych chi'r hawl i gael gwybodaeth onest, y gallwch chi ei deall, gan y cyfryngau.

Erthygl 18 Mae rhieni'n rhannu cyfrifoldeb am fagu eu plant, a dylent bob amser feddwl beth sydd orau i'r plentyn.

Erthygl 19 Mae gennych chi'r hawl i gael eich amddiffyn rhag niwed, a dylid edrych ar eich ôl a'ch cadw'n ddiogel.

Erthygl 20 Mae gennych chi'r hawl i dderbyn gofal priodol a chael rhywun i ofalu amdanoch chi os ydych chi'n methu byw gyda'ch teulu eich hun.

Erthygl 21 Mae gennych chi'r hawl i fyw yn y lle gorau i chi os ydych chi'n methu byw gyda'ch rhieni.

Erthygl 22 Os ydych chi'n ffoadur mae gennych chi'r un hawliau ag unrhyw blentyn arall yng Nghymru.

Erthygl 23 Mae gennych chi hawl i dderbyn gofal a chefnogaeth arbennig os ydych chi'n anabl, er mwyn i chi fedru byw bywyd llawn, annibynnol.

Erthygl 24 Mae gennych chi hawl i gael dŵr glân, bwyd maethlon, a chael gweld meddyg pan fydd ei angen.

Erthygl 25 Os yw plentyn yn byw oddi cartref, mae ganddyn nhw hawl i'r gofal maen nhw'n ei dderbyn gael ei wirio'n rheolaidd.

Erthygl 26 Mae gennych chi'r hawl i arian ychwanegol os nad oes gan eich teulu ddigon o arian i allu byw.

Erthygl 27 Mae gennych chi hawl i safon dda o fyw.

Erthygl 28 Mae gennych chi hawl i gael addysg a mynd i'r ysgol.

Erthygl 29 Rhaid i addysg hybu eich hawliau a'ch helpu i ddatblygu eich sgiliau a'ch doniau yn llawn.

Erthygl 30 Mae gennych chi hawl i ddefnyddio eich iaith.

Erthygl 31 Mae gennych chi hawl i ymlacio a chwarae.

Erthygl 32 Mae gennych chi'r hawl i gael eich amddiffyn rhag gwaith sy'n beryglus.

Erthygl 33 Mae gennych chi hawl i gael eich amddiffyn rhag cyffuriau peryglus.

Erthygl 34 Dylai'r Llywodraeth eich amddiffyn rhag camdriniaeth rywiol.

Erthygl 35 Mae gennych chi hawl i beidio â chael eich gwerthu.

Erthygl 36 Mae rhaid i lywodraethau amddiffyn plant rhag pob math arall o driniaeth wael.

Erthygl 37 Mae gennych chi'r hawl i gael eich trin yn deg os ydych yn torri'r gyfraith.

Erthygl 38 Dylai plant gael eu hamddiffyn yn ystod rhyfel, ac ni ddylid caniatáu iddyn nhw gymryd rhan mewn rhyfel nac ymuno â'r fyddin os ydyn nhw o dan 15 oed.

Erthygl 39 Dylai plant gael cymorth arbennig os ydych chi wedi cael eich cam-drin.

Erthygl 40 Mae gennych chi'r hawl i gymorth cyfreithiol os ydych chi'n cael eich cyhuddo o dorri'r gyfraith.

Erthygl 41 Os yw cyfreithiau eich gwlad chi yn eich amddiffyn yn well na'r hawliau yn y rhestr yma, dylai'r cyfreithiau yna aros yn eu lle.

Erthygl 42 Rhaid i'r llywodraeth roi gwybod i blant a theuluoedd am hawliau plant.

Erthyglau 43-54 Mae'r rhain yn trafod sut mae rhaid i'r llywodraeth a sefydliadau fel ein un ni weithio gyda'i gilydd i wneud yn siŵr bod pob plentyn yn derbyn eu hawliau.

Ffynhonnell: Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru